**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 5ed o FEHEFIN 2023 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH**

**Presennol:** Tyssul Evans (Cadeirydd yn y gadair) ,Delyth Thomas, Ian Evans, Aled Williams, Margaret Rees, Geraint Rosser, Tracey James, Linda Williams, Heddwyn Jones, Meic Bowen, Cynghorwr Sir Meinir James a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Caroline Williams ac Alan Lewis.

**3013** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd a dymunwyd adferiad buan i'r Cynghorwr Caroline Williams.

**3014 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 15/05/2023 fel rhai cywir.

**3015 Materion yn codi.**

Tud 1. Cofnod Rhif 3005 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd ymateb oddiwrth y Cyngor Sir ac wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd gofyn am 'Heras Fencing' o gylch yr holl adeilad a hefyd am gyfarfod safle gyda Syrfëwr y Cyngor.
Tud 1. Cofnod Rhif 3005 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ddatblygiadau newydd oddiwrth Stuart Thomas.
Tud 1. Cofnod Rhif 3005 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Mae llythyr wedi ei danfon i'r Rheolwr.
Tud 1. Cofnod Rhif 3005 - Rhodfa Ceffylau - Arhoswn am ddyddiadau cyfleus i gael Cyfarfod Safle.
Tud 2. Cofnod Rhif 3005 – Ysgol Glanmor – Aros am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**3016** Capel Salem Pedair Heol - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

**3017** Côr Ieuenctid Cwm Gwendraeth - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300.

*Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*

**3018** Clwb Criced a Phêl-droed Carwe - Parc Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

*Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

Gohebiaeth ychwanegol :-

**3019** Zurich Municipal – Yswiriant y Cyngor – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r bil o £1314.70 am y flwyddyn nesaf.

**Ceisiadau Cynllunio**

**3020**

a) Rhif y Cais - PL/05933 - Tir nes at Dafarn y Black Horse, Pontiets - 30 o Dai - Mynegwyd pryder ynglŷn â nifer o faterion :-
   (1) Pryder ynglŷn â dŵr yn dod oddiar y tir.
   (2) Angen mesurau gostwng cyflymder traffig.
   (3) Angen cyfraniad Adran 106 tuag at Barc y Meinciau.
   (4) Angen Cyfarfod Safle gyda' Adran y Priffyrdd.

b) Rhif y Cais - PL/05958 - 4, Heol Mansant ,Pontiets - Tŷ - Dim Gwrthwynebiad ond gofynnir at gyfraniad 106 tuag at Barc Gwynfryn.

**.Gwaharddiad y Cyhoedd**

**3021 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.**

**Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis**

**3022** Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Mai. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

**3023 Cais Loteri – Ffens Parc Pontiets**
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Awdurdodwyd y Clerc i lanw'r ffurflen briodol ar ran y Cyngor.

**3024 Cysgodfa Bys – Garn Ganol**
Penderfynwyd paentio'r Gysgodfa yng Ngharn Ganol.

**3025 Datganiad Llywodraethau Blynyddol**
Cynigwyd gan Margaret Rees ac eiliwyd gan Geraint Rosser ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol am y flwyddyn 2022 – 2023.

**Cyfarfod nesaf:- 3ydd o Orffennaf 2023 - Neuadd Pontiets**

**Llofnodwyd…………………………………………… CADEIRYDD**

**Dyddiad…………………………………………………**